CYMRU WLEDIG
LPIP
RURAL WALES

# Ymchwil ar Waith yng Nghymru Wledig

## Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn y gymuned



Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn brin – mae'n bendant yn effeithio ar fy nghyfleoedd gwaith

Rwy'n poeni am lifogydd o'r afon leol

Mae'n fy mhoeni na fydd fy mhlant o bosib yn gallu fforddio tŷ yn lleol

Gan fod siop y pentref bellach wedi cau, tybed beth fydd yr effaith ar ein cymuned?"

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn gydweithrediad rhwng prifysgolion, mentrau cymdeithasol, grwpiau preswylwyr a gweithredwyr lleol, busnesau, a phartneriaid polisi sy'n archwilio sut y gall ymchwil ac arloesi helpu i ddod o hyd i atebion i'r heriau sy'n wynebu Cymru wledig.

Mae cymunedau yng nghefn gwlad Cymru eisiau ffynnu a dathlu eu diwylliant a'u treftadaeth falch mewn byd sy'n prysur newid. Sut gallwn cydweithio i gyflawni hyn? Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn gyfle i wella gwytnwch y lleoedd hyn sy'n agos at ein calonnau gyda dulliau arloesol.

Rydym yn cydnabod bod gwahanol ranbarthau yn aml yn wynebu gwahanol frwydrau ac ni fyddai dull cyffredinol ledled Cymru yn ddefnyddiol. Oherwydd hynny, nod ein rhaglen Ymchwil Gweithredu Cymunedol yw rhoi rheolaeth i gymunedau dros lunio'r ymchwil a dod o hyd i'r atebion sy'n gweithio i bobl leol.

Mae ein prosiectau Ymchwil Gweithredu Cymunedol yn profi ffyrdd newydd o gasglu tystiolaeth ar bynciau y mae trigolion y gymuned yn eu hadnabod fel rhai sy'n bwysig yn lleol. Mae ymchwilwyr cymunedol yn casglu ac yn dadansoddi data eu hunain ac yn penderfynu beth i'w wneud â'r canlyniadau, dan arweiniad mentor academaidd a gyda chefnogaeth Rhwydwaith Ymchwil Cymunedol.


"

***Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi fy nghefnogi i wella fy sgiliau ymchwil a chanolbwyntio ar gyfeiriad mwy defnyddiol gyda fy ymchwil. Rwy'n gobeithio y bydd canlyniadau'r gwaith ymchwil yma yn cael eu defnyddio i helpu i lywio datblygiad Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych a pholisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol***

Sian Dixon, Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych

Ers 2024 rydym wedi bod yn gweithio gyda phum cymuned ledled Cymru i dreialu'r dull hwn. Mae'r cymunedau hyn wedi canolbwyntio ar bynciau fel yr economi adfywiol, trafnidiaeth gymunedol ac yr ecoleg lleol.

Yng ngham 2, mae'r dull yn cael ei ehangu i chwe chymuned arall, a ddewiswyd trwy gystadleuaeth agored yn hâf 2025.






**Adnabod materion allweddol ac archwilio atebion. Gyda'n gilydd mewn partneriaeth.**

Yn ystod lansiad Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2024, cawsom rannu ein gweledigaeth ar gyfer y tair blynedd nesaf. O'r dechrau, roeddem yn glir ein bod eisiau dylunio a chynhyrchu'r prosiectau ar y cyd, gan weithio **gyda** phobl a sefydliadau lleol i adnabod cyfleoedd, a sicrhau bod y gwaith a wnawn yn cyflawni'r union beth y mae'r gymuned ei eisiau a'i angen.

Yn hanesyddol, mae gormod o bolisïau wedi eu cyflwyno 'o'r brig i lawr' gan bobl nad ydynt yn byw yn y cymunedau hynny. Neu reoliadau newydd a gyflwynwyd gyda'r bwriad gorau, ond ddim yn darparu buddion cyfartal i bob rhanbarth efallai – yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig. Trwy roi penderfyniadau lleol wrth wraidd y prosiectau, ein nod yw cefnogi mentrau newydd cynaliadwy a chlir.

Bydd ein prosiectau Hymchwil Gweithredu Cymunedol yn cynhyrchu data a thystiolaeth y gall cymunedau eu defnyddio i ddatblygu eu hatebion eu hunain i faterion lleol, i ddarparu tystiolaeth ar gyfer ceisiadau am gyllid allanol, neu i lobïo Llywodraeth Cymru, cynghorau neu ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn rhoi modd i gymunedau gyflawni newid pendant.

## Cydweithio, Cyd-ddylunio a Chydweithredu

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn gwerthfawrogi profiadau bywyd yr arbenigwyr lleol: Chi: Y rhai sy'n byw drwy'r heriau dyddiol yng nghefn gwlad Cymru sydd yn y sefyllfa orau i adnabod y cyfleoedd, helpu i adnabod sut mae gwella pethau, a dylanwadu ar ymchwil a pholisïau yn y dyfodol.

## Ein dull o gydweithio

Gyda chyfarfodydd rheolaidd gyda thrigolion a sefydliadau cymunedol, a rhoi'r amser i dreiddio yn ddyfnach i'r materion sy'n effeithio ar fywydau pobl leol, mae'r mentoriaid academaidd yn cefnogi pobl i gasglu tystiolaeth ac archwilio materion sy'n bwysig yn eu hardaloedd lleol. Darperir hyfforddiant sgiliau gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales, gan dywys aelodau o'r gymuned i ddod yn ymchwilwyr gweithredol eu hunain a dangos iddynt sut i gyflwyno gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau newid cynaliadwy a thymor hir.

***"Mae tîm Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi bod o gymorth mawr wrth ddarparu adnoddau ac ysbrydoli grwpiau gwirfoddol i ehangu eu gwaith ymchwil. Mewn partneriaeth â Biosffer Dyfi, Lab Dŵr Dyffryn Dyfi a Phrosiect Swift Biosffer Dyfi, mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi bod yno ar bob cam o ddatblygiad cynllun ymchwil effeithiol. Mae'r prosiect Gwenoliaid a Dŵr wedi partneru gyda mentoriaid academaidd i esmwytho'r gwaith o gasglu sylfaen gwerthfawr o ddata fydd yn sbardun i ymchwil bellach".***

James Cass, Biosffer Dyfi



## Gwella bywyd yng nghefn gwlad Cymru

Dim ond un o'r ffyrdd mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn defnyddio ymchwil ac arloesedd i wella bywyd yng nghefn gwlad Cymru yw Ymchwil Gweithredu Cymunedol. Rydym hefyd yn cynnal astudiaethau wedi'u targedu er mwyn dylanwadu ar bolisïau cysylltiedig â materion pwysig megis deall twf yn yr economi wledig, osgoi cyfaddawdu ar brosiectau sero net, a chefnogi gweithgarwch diwylliannol Cymraeg ar lawr gwlad. Rydym yn cynnal arolygon er mwyn diweddaru tystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae ein Labordai Arloesi yn edrych ar ymyriadau i gael gwared ar rwystrau i newid.

## Contact us

Os hoffech chi gymryd rhan yn ein gwaith neu dderbyn rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Athro Michael Woods, Cyfarwyddwr, Cymru Wledig LPIP Rural Wales **lpip@aber.ac.uk**

Gwefan: **www.LPIP.cymru**

LinkedIn: **www.linkedin.com/company/cymru-wledig-lpip-rural-wales**

## Ariannwyd gan

Arts and Humanities Research Council

Economic and Social Research Council

Innovate UK

## Cynhaliwyd gan

W/SERD

## Partneriaid Craidd

1872 Prifysgol Aberystwyth University

SGEMA

Prifysgol Bangor University

antur cymru enterprise

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

TfC

DEG Datblygiadau Egni Gwledig

Represent Us Rural

CCRI Countryside and Community Research Institute

Centre for Alternative Technology Canolfan y Dechnoleg Amgen

Iechyd a Gofal Gwledig Cymru Rural Health and Care Wales